# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Willow Holloway

### Sylfaenydd, Prosiect Grymuso Menywod Awtistig Is-gadeirydd, Anabledd Cymru Cynrychiolydd Cymru a Chadeirydd Autistic UK

Helo bawb. Fy enw i yw Willow Holloway a gofynnwyd ifi rannu fy mhrofiadau o weithio gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yma yng Nghymru. Rwy' wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol er rhai blynyddoedd nawr, a dechreuais i ar yr adeg roedd newid yn yr arweinyddiaeth pan ddaeth Sara Harvey a Wendy Thomas i'r rolau Arwain Cenedlaethol. I ddechrau, roedd hyn drwy fy rôl ar Grŵp Cynghorol Gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer ASA, a hefyd drwy fynychu digwyddiadau ymgynghori. Rwy'n rhoi ffocws mawr ar gydraddoldeb ar gyfer pobl awtistig a phob person anabl ac felly rwy'n mynychu digwyddiadau ymgynghori o'r math yma pryd bynnag y galla i. Daeth y newid yma i'r arweinyddiaeth ar yr adeg pan oedd datblygu'n digwydd yn fy sefydliad fy hun, sef Autistic UK.

Autistic UK yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr a'i redeg ar gyfer pobl awtistig gan bobl awtistig. Fi yw'r person yn y sefydliad sy'n canolbwyntio ar ymgyrchu yma yng Nghymru. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn mynd drwy'r broses o ailstrwythuro er mwyn galluogi ein sefydliad i addasu i ffyrdd newydd o weithio ac mae hynny'n bwysicach nawr nag erioed o'r blaen. Drwy gydol hyn roedd yn bwysig ifi bod ymgynghori'n digwydd gyda chymaint o oedolion awtistig â phosibl tra bod gwasanaethau'n cael eu datblygu i ateb ein hanghenion ac roedd y ddwy sy'n arwain ar hyn yn genedlaethol yn agored iawn i hyn.

Er mod i wedi gallu gwneud y recordiad yma, sydd wedi cymryd siŵr o fod chwe ymgais i gyrraedd y diwedd, dwi ddim yn un sy'n gallu cyfathrebu'n hawdd, ac mae rhwydweithio'n beth hynod o heriol ifi. Er gwaethaf hyn, rwy' wedi cael croeso gwresog gan y Tîm cyfan, nid Wendy a Sara'n unig, ond y tîm i gyd yn y swyddfa a'r Arweinwyr Datblygu Rhanbarthol. Rwy'n teimlo dros y blynyddoedd diwethaf bod cyd-gynhyrchu a chefnogaeth gadarnhaol iawn rhyngon ni, y ddwy ffordd. Fy mhrif ffocws yn fy holl waith fel eiriolydd awtistig yw sicrhau bod llais pobl awtistig yn cael ei glywed, ac mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi bod yn gefnogol iawn yn hyn o beth. Ces i wahoddiad ganddyn nhw i gymryd rhan wrth ddatblygu'r strategaeth ymgysylltu, ac rwy' nawr yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Cenedlaethol fel ymgynghorydd awtistig gwirfoddol. Ar hyn o bryd rydyn ni'n canolbwyntio ar yr hyn y bydd ei angen ar bobl awtistig wrth i'r genedl symud allan o gyfnod y cyfyngiadau symud.

Mae'n fraint fawr i fod yn gweithio ar lefel genedlaethol yma yng Nghymru ac rwy'n credu mai uchafbwynt fy ngwaith gyda'r Tîm Cenedlaethol yw'r ffaith bod fy mewnbwn wir yn cael ei werthfawrogi, hyd yn oed pan rwy'n gwneud hyn yn wirfoddol, felly mae'r rôl yn fy ngwneud yn rhyw fath o ffrind critigol ar adegau. Rwy'n teimlo bod fy llais yn cael ei glywed, a ddim fel rhywun sy'n mynychu jyst er mwyn gallu ticio blwch. Mae wir yn teimlo fel bod ymdrech yma i gyflawni rhywbeth gyda'n gilydd. Mae gen i gysylltiadau â llawer o oedolion awtistig yma yng Nghymru ac maen nhw i gyd mor falch bod gyda ni gysylltiad clir erbyn hyn gyda phobl sy'n gallu gwneud i newid ddigwydd.

Mae'n gallu bod yn anodd iawn cysylltu â'r gymuned awtistig, ond rwy'n siŵr os byddwn ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd y gallwn ni ddod o hyd i ffyrdd arloesol newydd o sicrhau bod y bobl hynny sy'n ei chael yn heriol ymgysylltu ac sy'n cael trafferth goresgyn rhwystrau'n cael cyfle i'w lleisiau gael eu clywed. Wrth symud ymlaen hoffwn i barhau i rannu fy mhrofiadau a hoffen hefyd helpu eraill i gymryd mwy o ran wrth wneud penderfyniadau a fyddai'n llywio'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau i bobl awtistig ar draws Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at yr hyn sydd ar y gorwel i ni ac yn dymuno'r gorau i'r Tîm yn y flwyddyn sydd i ddod.